

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion y Cyfarfod

Dydd Iau 14 Ionawr 2021

Ar-lein drwy Microsoft Teams, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Dirprwy-gadeirydd
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Jillie Gardiner (JG)
Paul Barrett (PB)
David Stacey (DS)
Geoff Williams (GW) – materion rhwydwaith ysbeidiol

Ysgrifennydd - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Y Cyngorydd Hazel Evans (HE) Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd
Steve Pilliner (SP) Rheolwr Trafnidiaeth a Phrifyrdd CSC
Neil Thomas (NT) Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored CSC
Helen Grey (HG) Cyfoeth Naturiol Cymru - Swyddog Pobl a Lleoedd
Stephen Barrett (SB)

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Dim

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Dim

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Gaerfyrddin

**Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

EITEM	CAMAU GWEITHREDU
<p>Eitem 1 - Croeso a Chyflwyniad</p> <p>Croesawodd MH bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd sut y bydd cyfarfod drwy MS Teams yn gweithio. Mynd o amgylch y sgrîn i gyflwyno pawb oedd yn bresennol.</p>	
<p>Eitem 2 - Ymddiheuriadau</p> <p>Dim</p>	
<p>Eitem 3 - Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau</p> <p>Dim</p>	
<p>Eitem 4 - Materion yn Codi o'r Cofnodion</p> <p>KB – byddai'n hoffi cael y wybodaeth ddiweddaraf am eitem 9 – gatiâu sy'n cau eu hunain – a yw pryderon wedi cael eu hadrodd yn ôl? Y wybodaeth ddiweddaraf os gwelwch yn dda.</p> <p>CF – mae'r pryderon wedi'u hadrodd yn ôl i'r tîm cynnal a chadw. Bydd yn llunio ymateb ffurfiol y gellir ei anfon ymlaen at bob aelod.</p> <p>RL – y diweddaraf am gyllid a rhagor o wybodaeth am ddiwygio mynediad?</p> <p>CF – mae'r 3 phrosiect a ariennir i'w trafod o dan eitem 6 ar yr agenda. Mae cam olaf Diwygio Mynediad yn dechrau'r wythnos nesaf felly nid oes gwybodaeth ychwanegol eto. Grŵp arbenigol 'Themâu Trawsbynciol' yn cael ei gynnull i ateb her y materion sy'n croesi'r 3 phwnc gwahanol yn ymwneud â Diwygio Mynediad sy'n cael eu trafod.</p> <p>MH – a yw Ffyrdd Diddosbarth a Chilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig yn dod o dan y Cynllun Rheoli Mynediad - Hawliau Tramwy Cyhoeddus neu'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd?</p> <p>CF – Mae Ffyrdd Diddosbarth yn dod o dan y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, bydd Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig yn dod o dan yr hierarchaeth rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a'r Cynllun Rheoli Asedau.</p> <p>MH - o ystyried gwerth Ffyrdd Diddosbarth o safbwynt hamdden, a all yr arian Priffyrdd a roddir i Hawliau Tramwy Cyhoeddus barhau i gael ei ddefnyddio ar Ffyrdd Diddosbarth er gwaethaf eu safle yn hierarchaeth y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd</p> <p>RL – a ellid cynnwys Ffyrdd Diddosbarth o dan 'Fy Un Agosaf' ar y dudalen we Hawliau Tramwy Cyhoeddus? Mae'n ddefnyddiol ar gyfer rhoi gwybod am faterion.</p>	<p>CF</p> <p>CF/SP</p>

CF/SP – bydd angen gwirio hyn.

MH – Cynnydd recriwtio

CF – camau olaf y broses o gael cymeradwyaeth i recriwtio i'r swydd Swyddog Cefn Gwlad.

Eitem 5 – Covid19

CF – Mae'r effaith ar y gwasanaeth Mynediad i Gefn Gwlad yn parhau. Mae'r cyfyngiadau llym a roddwyd yn eu lle adeg y Nadolig yn golygu bod y gwasanaeth yn ôl i ymweliadau safle hanfodol yn unig. Mae'r Ceidwaid yn parhau i weithio o dan arferion gweithio diogel llym, sydd yn arafu'r gwaith yn gyffredinol. Mae cyflawni prosiectau yn dal i fod yn hyfyw; ni ellir bodloni rheoliadau gwneud gorchmynion felly mae'r gwaith gorchmynion llwybrau ar stop eto, mae gorchmynion cyfreithiol wedi bod ar stop dros holl gyfnod y pandemig Covid bron.

NT – Problemau tebyg i Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Hefyd, ail-leolwyd staff y tu allan i'r gwasanaeth yn ystod y pandemig, mae'r gwasanaeth tua 4 mis ar ei hôl hi o gymharu â'r sefyllfa fel y byddai fel arfer. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaeth.

MH – Pa safleoedd ydych chi'n eu rheoli?

NT – Pen-bre, Llyn Llech Owain, Mynydd Mawr, Gwarchodfeydd Natur

MH – a yw Pen-bre ar gau/dan gyfyngiadau?

NT – mae pob safle yn gwbl agored, ond mae'r canllawiau'n cyfyngu pobl i wneud ymarfer corff 'o gartref' yn unig.

CF – A allai Helen roi darlun o effaith Covid19 ar ystâd CNC?

HG – Gallaf gael y wybodaeth honno, nid yw'n rhan o'r rôl Pobl a Lleoedd.

MH – Ai rôl Helen yw'r un orau i fynychu'r Fforwm Mynediad Lleol.

HG – mae'n fater sy'n cael ei drafod o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Y nod yw cael y person gorau i fod yn bresennol yn rheolaidd. A allai mwy nag un cynrychiolydd CNC fod yn bresennol?

CF – croeso i fwy nag un gyfrannu at y drafodaeth.

SP – Mae Covid wedi bod yn gyfnod anodd iawn, bydd yn effeithio ar wasanaethau am beth amser, y flaenoriaeth ar hyn o bryd yw cadw pawb yn ddiogel.

HG

Eitem 6 – Prosiectau Hawliau Tramwy Cyhoeddus

CF – cyfarfod diweddar gyda KB a SP i fynd drwy 3 phrosiect ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Dewiswyd y prosiectau i'w cyflawni ynghyd â'u gwerth strategol, a chawsant dderbyniad cadarnhaol gan KB fel cynrychiolydd y Fforwm Mynediad Lleol.

- 1) Mae'r rhaglen arwyddbyst, sydd wedi'i hanelu at lwybrau sy'n agored i'w defnyddio, 132 o faterion i'w datrys ac sy'n aros am ddeunyddiau i gael eu darparu, yn bodloni camau gweithredu a pholisïau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ogystal â dyletswydd statudol. Nid oes angen trafodaethau â thirfeddianwyr. I'w gyflwyno'n gyntaf.

MH – a fydd hyn ar ochr y ffordd yn unig? Roedd gwybodaeth flaenorol gan gyn-reolwr yn tynnu sylw at y mater bod arwyddion newydd ar ochr y ffordd yn cael eu symud/eu fandaleiddio.

CF – Prosiect arwyddbyst ar briffyrdd yn unig, mae cyfeirbwyntiau yn ymarfer ar wahân. Ymarfer cyfathrebu ymlaen llaw, gobeithio y bydd hyn yn lleihau unrhyw ymateb negyddol i osod arwyddbyst. Roedd gwirio cyflwr y llwybr ochr yn ochr â phob cais am arwyddbost yn llafurddwys ond y gobaith yw y bydd yn arwain at well derbyniad i arwyddbyst ar draws y Sir.

CF

KB – A oes arwyddbyst yn cael gosod ar unrhyw Lwybrau Ceffylau?

CF – Bydd yn gwirio'r daenlen ac yn anfon y canlyniadau at bob aelod

- 2) Llwybr Pob Gallu i'w ddatblygu ar hyd llwybr troed cyhoeddus 36/53 (1.2km), ochr yn ochr â chronfa ddŵr Lledi Isaf. Nid oes nifer uchel o faterion wedi'u cofnodi yn ei erbyn ond mae'r hen arwyneb tarmac yn chwalo felly bydd angen ei drwsio'n fuan. Mae'n bodloni amcanion y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac yn cyd-fynd â'r llwybrau blaenoriaeth uchel a nodwyd ar fersiwn ddrafft o hierarchaeth y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Caiff ei gyflwyno mewn partneriaeth â phrosiect Cyngor Gwledig Llanelli i ddatblygu cyfleusterau hamdden pob gallu ar/o amgylch y gronfa ddŵr.

MH – mae'n ymddangos yn gynllun proffil uchel, sydd â chanlyniadau cadarnhaol iawn, mae'n werth hyrwyddo ymdrechion Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Cyngor Cymuned.

KB - A fydd y cyfleusterau ar gael i bawb

CF – Cyngor Gwledig Llanelli fydd yn rheoli cyfleusterau'r safle, deallir y bydd mynediad drwy system drwyddedau. Bydd y llwybr troed wrth gwrs yn agored ac yn hygyrch i bawb bob amser, ni fydd hyn yn rhan o'r system drwyddedau.

- 3) Prosiect Cilffyrdd Cydweli. Rhwydwaith Cilffyrdd sylweddol yn ardal Cydweli, mae rhai ymholiadau ynghylch statws wedi atal/oedi gwaith yn y gorffennol. Nodwyd llwybr cylchol o Gilffyrdd sy'n dod i gyfanswm o 6.2km, ac sy'n cynnwys llwybrau heb lawer o anghysondebau statws. Mae llwybrau a allai gael eu hailddosbarthu yn y dyfodol wedi'u hosgoi.

Mae 25 o faterion i'w datrys, y disgwylir iddynt ddechrau ym mis Mawrth; byddant yn cael eu cyflawni ddiwethaf oherwydd bod y gwaith cyswllt o bell â thirfeddianwyr yn arafu'r broses.

MH – a fyddant yn agored i bawb, gan gynnwys 4x4s

CF – efallai y bydd angen Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar un llwybr oherwydd ei led cyfyngedig, fel arall byddant yn agored i bawb ar hyn o bryd.

MH – a oes yna brosiectau'n barod ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf?

CF – mae rhai syniadau eisoes ar waith ar gyfer y flwyddyn nesaf, mae syniadau pellach i gael eu datblygu. Gall gwaith paratoi ddechrau'n gynharach yn y flwyddyn ariannol gan alluogi cynlluniau mwy cymhleth i gael eu cyflawni trwy ddatrys materion mwy hirsefydlog.

SP – y cynllun yw bod yn fwy strategol wrth symud ymlaen, gobeithio y bydd prosiectau eleni yn dangos ein hymrwymiad i wneud gwelliannau.

KB – a oes unrhyw newyddion am gyllid ychwanegol eleni yn dilyn pwysau Covid?

SP – dim yr ydym yn ymwybodol ohono.

CF – dim byd penodol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ond hysbysiad diweddar o Grant Gwella Mynediad arall ar gyfer 2021-22.

Eitem 7 – 'Prosiect peidiwch â cholli eich ffordd' y Cerddwyr

CF – eitem awgrymedig ar yr agenda gan PB.

PB – prosiect cenedlaethol sy'n nodi 700 milltir o ffyrdd coll yn Sir Gaerfyrddin. Sut mae'r awdurdod yn bwriadu ymateb.

CF – Erthygl a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Cerddwyr sy'n tynnu sylw at filltiroedd lawer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus a gollwyd yn Sir Gaerfyrddin, dim manylion am y broses adnabod na statws y llwybrau. Nid oes cyfathrebu pellach wedi bod eto â Chymdeithas y Cerddwyr i gael mwy o fanylion neu groesgyfeirio llwybrau a nodwyd, gyda Gorchymynion Addasu Mapiau Diffiniol (DMMOs) eisoes ar ein hamserlen. Roedd yr erthygl yn canolbwyntio ar ddyddiad terfyn 2026, nad yw wedi'i ddeddfu yng Nghymru, efallai nad yw'n gymwys o ystyried y cynigion diwygio mynediad.

RL – Codwyd y pwnc gyda Jack Cornish (Cymdeithas y Cerddwyr) sydd wedi edrych ar lwybr a nodwyd gan y prosiect. Mae llwybrau a nodwyd gan wirfoddolwyr yn ffyrdd coll 'posibl'. Mae Cymdeithas y Cerddwyr yn bwriadu gweithio gyda gwirfoddolwyr i ymchwilio ymhellach i lwybrau a blaenoriaethu'r llwybrau hynny sydd o fwyaf o werth i'r rhwydwaith. Rhaid cydnabod bod sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i Loegr.

JG – a yw Cymdeithas y Cerddwyr yn gweithio gyda sefydliadau eraill fel grŵp BHS Dobbin?

CF – nid oes dim wedi'i hyrwyddo cyn belled â chydweithrediad, bydd sefydliadau'n ymwybodol o'i gilydd ac yn debygol o fod wedi ystyried prosiect ar y cyd.

Eitem 8 - Adroddiadau ar Faterion

RL – mae'r materion allweddol wedi'u nodi, mae'r materion wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac ni fu gostyngiad ar unrhyw adeg. Gwell adroddiadau o bosibl. Mae'r llynedd wedi bod yn arwyddocaol, gyda phobl yn darganfod eu llwybrau lleol, cafwyd cynnydd dramatig mewn 3 mis hyd at fis Ionawr 2021, sydd yn her i'r tîm. Bu cynnydd mawr mewn materion yn ymwneud â Chilffyrdd, gan ddyblu yn y chwarter diwethaf.

CF – byddai angen craffu i ddod o hyd i'r rhesymau dros y cynnydd mewn materion yn ymwneud â Chilffyrdd. Mae pobl yn gwneud mwy o ddefnydd o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, maent yn fwy egnïol ar-lein ac yn naturiol yn dod yn fwy cyfarwydd â rhoi gwybod am faterion.

SP – Mae Covid wedi bod yn gyfnod eithriadol sydd wedi gweld pobl yn gwneud mwy o ddefnydd o'u Hawliau Tramwy Cyhoeddus lleol, a oedd yn anochel yn golygu eu bod yn dod o hyd i broblemau ac yn rhoi gwybod amdanynt. Mae tuedd gyffredinol y cynnydd mewn materion wedi digwydd ar yr un pryd â phwysau ariannol sylweddol mewn llywodraeth leol. Sicrhawyd arian ychwanegol i'n galluogi i ddechrau mynd i'r afael â'r materion hanesyddol hynny ar y rhwydwaith.

RL – roedd yn gwerthfawrogi bod yna gyfyngiadau ariannol. Mae twristiaeth a llety hunanarlwyo yn tyfu'n gyflym. Mae cerdded o'r drws yn werthfawr i bobl sydd ar eu gwyliau. Efallai y bydd yn bosibl i'n harweinwyr lleol godi hyn gyda Llywodraeth Cymru fel ffordd o gael cymorth i gynnal ein hadnoddau Hawliau Tramwy Cyhoeddus lleol. Sut y mae'r ddarpariaeth ar gyfer pobl leol yn cyd-fynd ag anghenion twristiaid?

HE – Mae Covid wedi tynnu cymaint allan o gyllid cyhoeddus, nid yw Llywodraeth Cymru am weld arian yn cael ei roi i dwristiaeth tra mai 'aros gartref' yw'r neges genedlaethol. Pan fydd y cyfyngiadau'n codi, dylid symud adnoddau tuag at ddenu twristiaid. Mae angen ystyried y gwrthdaro posibl rhwng pobl leol a thwristiaeth, ac mae angen ei reoli'n ofalus.

MH – lluniwyd nodyn briffio mewn adroddiadau ar faterion, dim ymateb ffurfiol hyd yma.

SP – mae cynlluniau strategol a blaenraglen waith yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gyda'r nod o wella'r darlun cyffredinol. Bod yn fwy strategol a defnyddio mentrau i'n helpu i wella perfformiad.

KB – Sut mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn cymharu â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – a oes llawer o wahaniaeth.

CF – mae rheoli asedau yn ymwneud mwy â lleihau risg, yn enwedig o amgylch strwythurau ein pontydd, na gwella mynediad yn benodol. Mae'n ategu amcanion y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, gan ddarparu dull strwythuredig.

SP – Wrth edrych ar y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, dylid cofio ei fod yn ddogfen realistig iawn, sy'n rhoi materion mewn persbectif, yr adnoddau sydd ar gael, materion sydd wedi cronni ac, yn bwysig, blaenoriaethu'r rhwydwaith yn ôl risg.

Eitem 9 – Unrhyw Fater Arall

Parciau Gwledig

MH – Roedd yn falch o gael Neil yn bresennol, a fyddai modd darparu diweddariadau ar gyfer pob cyfarfod os nad yw'n bosibl bod yn bresennol.

NT – Unwaith y bydd staff wedi setlo i mewn i'w rolau newydd yn dilyn ad-drefnu, dylai fod yn bosibl i gynrychiolydd ddod i'r Fforwm Mynediad Lleol. Mae'r sefyllfa gyda Covid wedi creu capasiti cyfyngedig, gan rannu'r timau cynnal a chadw er mwyn sicrhau gweithlu parhaus os bydd prawf Covid positif yn digwydd o fewn un o'r timau. Gweithio'n agos gyda Karen ar faterion mynediad o fewn y parciau.

KB – Mae angen i ni wybod at bwy i droi ynglŷn â materion mynediad y tu allan i'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus, dylai'r Fforwm Mynediad Lleol gael cyfle i roi sylwadau ar brosiectau, cynlluniau a chyllid mewn mannau eraill yn y ddarpariaeth mynediad a chlywed straeon cadarnhaol eraill.

NT – Cynnwys tir y Goron a CNC ar draws safleoedd o dan reolaeth Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r berthynas â CNC yn hollbwysig ym Mhen-bre.
Prosiectau parhaus

- Cynllun i ddatrys mater erydiad arfordirol cymhleth sy'n cynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus/llwybr beicio ar draws ardal o forfa heli wedi'i dynodi yn SoDdGA/safle Ramsar/ACA.
- Llyn Llech Owain – mae'r gwaith o ehangu mynediad dynodedig i geffylau o amgylch perimedr y parc, gwella rhodfeydd pren ar gyfer pob gallu, adnewyddu/symud gatiau i wella mynediad, ffurfioli trefniadau parcio yn parhau.
- Y Mynydd Mawr – pan fydd adnoddau ar gael mae angen rhesymoli llwybrau ac egluro'r defnydd a ganiateir ar draws y parc i leihau gwrthdaro rhwng defnyddwyr a gwella'r profiad.

MH – Angen cadw'r sgwrs i fynd, bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn helpu lle gallant.

JG – Caewyd y meysydd parcio ym mharciau Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, beth yw'r sefyllfa nawr o ran ceffylau'n teithio ar gyfer ymarfer corff a defnyddio meysydd parcio.

NT – Mae'r canllawiau'n glir y tro hwn, gall parciau gwledig aros ar agor. Caiff canllawiau aros yn lleol eu gorfodi'n gryf gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Heddlu Dyfed-Powys.

CF

MH

Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig a Ffyrdd Diddosbarth

MH – prosiectau Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig a Ffyrdd Diddosbarth ar gyfer 2021-22. A ellid nodi Ffordd Ddiddosbarth neu Gilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig ar gyfer prosiect sy'n gysylltiedig â gwirfoddolwyr, rhywbeth y gellid ei hyrwyddo fel rhywbeth buddiol i bob defnyddiwr. Rhywbeth i'w drafod ymhellach.

KB – byddai'n cefnogi'r syniad hwnnw.

MH – mae adroddiad blynyddol i'w wneud, mae'n hapus i ymgymryd â hyn fel arfer os yw'r Awdurdod yn hapus â'r trefniant?

CF/SP – Roedd y ddau yn cytuno.

Strategaeth Farchogaeth

KB – hoffai ofyn i'r Fforwm Mynediad Lleol gefnogi rhyw fath o arolwg i lywio'r Strategaeth Farchogaeth, sy'n bwysig er mwyn deall y broblem.

CF – mae bwriad i gynnal arolygon, y gobaith yw y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn cefnogi'r gweithgaredd hwnnw. Mae arolwg yn hanfodol ar gyfer y strategaeth. Mae'r data'n gyfyngedig ac wedi dyddio, ac mae angen darlun o Sir Gaerfyrddin.

JG – Mae ymchwil i dwristiaeth farchogol wedi dod o hyd i rai enghreifftiau o Ewrop, mae'n hapus i rannu hyn ac i gynorthwyo gyda'r strategaeth.

CF – Gallai diwygio mynediad gael effaith sylweddol ar y strategaeth, mae angen cadw mewn cof y potensial ar gyfer newid.

KB – pryd y bydd y diwygio'n digwydd? Does dim eisiau oedi os yw'r newidiadau'n mynd i gymryd amser i gael eu gwireddu.

CF – cynigion diwygio drafft erbyn mis Mehefin, dim dyddiad gweithredu ar hyn o bryd. Dim bwriad i ohirio'r strategaeth ond efallai y bydd angen ei diogelu ar gyfer y dyfodol cyn belled ag y bo modd.

Datganiadau Ardal

HG – A oes llawer o wybodaeth am ddatganiadau ardal o fewn y Fforwm Mynediad Lleol, a fyddai cyflwyniad byr am ddatganiadau ardal yn fuddiol?

MH – dim ers y gweithdy, byddai'n dda cael diweddariad, eitem ar gyfer yr agenda nesaf.

Ymgynghoriad Teithio Llesol

KB – Mae'r Sir yn gofyn am awgrymiadau Teithio Llesol ond hefyd awgrymiadau ar gyfer 'mynediad i hamdden.' A yw'r Sir yn chwilio am syniadau ar gyfer llwybrau hamdden? - yna dylid rhoi cyfle i farchogion gyfrannu.

SP – ymateb sylweddol i ymgynghoriad Teithio Llesol gan y gymuned farchogol.

KB – nid yw'r ymgynghoriad yn glir gan ei bod yn ymddangos bod cyfleoedd hamdden yn cael eu hystyried ond nid yw barn marchogion yn cael ei chynnwys. Dylid derbyn barn marchogion os yw llwybrau hamdden y tu allan i deithio llesol yn cael eu hystyried. Mae'n gwerthfawrogi cyfyngiadau Teithio Llesol ond nid yw llwybrau hamdden yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau felly dylai marchogion fod yn rhan o'r sgwrs. Bydd yn anfon yr union eiriad a geir yn yr ymgynghoriad at SP i gael sylwadau.

JG – Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai llwybrau teithio llesol mewn ardaloedd gwledig ystyried anghenion marchogion.

MH – KB a JG i anfon gwybodaeth at Steve i'w hystyried.

Mynediad Arall

CF – Awyddus i ehangu buddiannau mynediad y Fforwm Mynediad Lleol, mae'r trefniadau i gymryd rhan drwy dîm Neil ar y gweill, bwriad i gysylltu â'r Swyddog Tir Comin i fod yn bresennol yn y Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol i gynghori ar faterion/prosiectau Tir Comin, Comin Trefol, Maes Pentref.

Hierarchaeth Rhwydwaith

CF – mae dogfen ddrafft wedi'i dosbarthu i'r aelodau i gael sylwadau arni cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chymryd drwy broses gymeradwyo'r Cyngor.

Dangosyddion Perfformiad

CF – E-bost gan RL yn holi am ymgymryd â Dangosyddion Perfformiad yn unol â thrafodaeth a gafwyd yn ystod cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol yn 2019 lle cytunwyd mewn egwyddor ar arolwg Dangosyddion Perfformiad bob 2 flynedd. Ni ddigwyddodd yn 2020 (oherwydd Covid) ond hoffem gwblhau arolygon Dangosyddion Perfformiad yn 2021, mae'r data'n ddefnyddiol, mae'r dasg yn ddelfrydol ar gyfer gwirfoddolwyr. Pe bai'n llwyddiannus, gallai Dangosyddion Perfformiad fod yn weithgaredd blynyddol unwaith eto. Byddai hwn yn

<p>weithgaredd gwirfoddol arall y gellir ei reoli drwy feddalwedd CAMSWeb pan fydd wedi'i osod.</p> <p>MH – Syniad da ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr.</p>	
<p>Eitem 10 - Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol</p> <p>RL – ailedrych ar Deithiau Cerdded Sirol, ystyried teithiau cerdded a dynnwyd oddi ar y rhestr a hyrwyddir. Beicio ar lwybrau troed, y sefyllfa gyfreithiol bresennol. Prosiect Gwlyptiroedd Caerfyrddin, unrhyw newyddion am gynnydd.</p> <p>SP – Adolygiad o flaenraglenni gwaith sy'n cynnwys mynediad, CF i gysylltu â gwasanaethau eraill a darparu rhestr. Dull mwy strategol.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 11 – Cyfarfodydd ar gyfer 2020/221</p> <p>CF – penderfynu ar gyfarfodydd fesul cyfarfod hyd nes bydd sefyllfa Covid19 yn setlo, 8, 22 neu 29 Ebrill, i'w gadarnhau.</p> <p><i>**29 Ebrill bellach wedi'i gadarnhau**</i></p>	